Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesur y Mynydd

## Ymateb i argymhellion cam un

Chwefror 2020

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40084 ISBN Digidol 978-1-80038-163-6

## Ymateb Mesur y Mynydd i'r argymhellion

### Cefndir

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') i rym ar 6 Ebrill 2019 gyda'r nod o drawsnewid sut mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu ledled Cymru a thrwy wella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu gwerthusiad o'r Ddeddf, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i sicrhau bod sylwadau a safbwyntiau dinasyddion wrth wraidd datblygu'r gwerthusiad yn ogystal â'r gwerthusiad ei hun. Er mwyn cefnogi'r dull hwn a mynd ati i geisio barn y dinasyddion, cytunodd Huw Irranca-Davies, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol blaenorol, i ariannu prosiect Mesur y Mynydd.

Dechreuodd cam cyntaf prosiect Mesur y Mynydd ym mis Ionawr 2018, ac fe'i cynhaliwyd mewn dwy ran:

1) Prosiect ymchwil dan arweiniad dinasyddion, gan ddefnyddio technoleg SenseMaker i gasglu 'straeon' dinasyddion a gasglwyd ledled Cymru. Pwyslais yr ymchwil oedd 'beth sy'n bwysig i ddinasyddion o safbwynt gofal cymdeithasol'. (Cam 1 Ionawr – Mehefin 2018).
2) Panel Llais y Dinesydd a ddefnyddiodd fethodoleg y Rheithgor Dinasyddion, wedi'i lywio gan ymchwil SenseMaker. Y nod oedd myfyrio a threiddio'n ddyfnach i un thema benodol trwy ymchwiliad ymgynghori a thrafodaethau (Cam 2 Gorffennaf – Rhagfyr 2018).

Cafodd cyfres o argymhellion manwl gan y Rheithgor Dinasyddion a SenseMaker eu datblygu, a chyflwynwyd yr argymhellion yn ffurfiol gan Mesur y Mynydd i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019.

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r gwaith a wnaed gan dîm Mesur y Mynydd ac wedi cytuno i roi ymateb ffurfiol i'r argymhellion ar ôl blwyddyn gynta'r prosiect. Mae'r ymateb, fel y nodir yn y ddogfen hon, yn esbonio sut fydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol i roi'r argymhellion hyn ar waith.

Mae argymhellion cam 1 Mesur y Mynydd i'w gweld yn yr adroddiad – 'Mesur y Mynydd: Beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru – Adroddiad Terfynol'[1]

### Methodolegau

Mae Mesur y Mynydd wedi datblygu ei argymhellion trwy ddefnyddio dwy fethodoleg ymchwil ategol ac arloesol. Cynlluniwyd y ddwy fethodoleg er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol ag unigolion; er mwyn casglu a syntheseiddio amrywiaeth eang o safbwyntiau; ac er mwyn gallu archwilio materion penodol yn fanylach.

[1] Mesur y Mynydd: Beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru. http://mtm.wales/ckfinder/userfiles/files/MyM%20Adroddiad%20Terfynol.pdf

Y methodolegau a ddewiswyd yw SenseMaker er mwyn casglu straeon manwl gan unigolion, a'r Rheithgor Dinasyddion er mwyn archwilio materion mwy cymhleth a thrylwyr, a rhoi cyfle i'r cyhoedd gyfrannu'n uniongyrchol at werthuso'r polisi.

Mae hwn yn brosiect cymhleth, ac mae Llywodraeth Cymru'n fodlon gyda chadernid a dilysrwydd y methodolegau a ddewiswyd, gan y bydd y dulliau hyn yn sicrhau bod y prosiect yn gallu cyflwyno darlun cyffredinol o brofiadau gofal a chymorth pobl dan Ddeddf 2014.

**Ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru**

Cyflwynir ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru mewn dwy adran, gyda'r naill a'r llall yn mynd i'r afael â rhannau gwahanol o adroddiad Mesur y Mynydd. Mae Adran 1 yn ymateb i argymhellion y Rheithgor Dinasyddion (a welir ar dudalennau 65 – 69 yr adroddiad) ac Adran 2 yn ymateb i argymhellion cyffredinol, terfynol Adroddiad Mesur y Mynydd sy'n gyfuniad o gasgliadau'r Rheithgor Dinasyddion a'r straeon a gasglwyd trwy SenseMaker (tudalennau 80 – 81 yr adroddiad).

**Adran 1**

Mae'r adran hon yn cynnwys ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i bymtheg o argymhellion y Rheithgor Dinasyddion fel rhan o brosiect Mesur y Mynydd. Cynhaliwyd y Rheithgor Dinasyddion ym mis Medi 2018 er mwyn cael tystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Gofal Cymdeithasol Cymru, ymarferwyr, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd eisiau cymorth. Cafodd yr holl dystiolaeth ei hystyried yn ofalus gan y Rheithgor gan ddefnyddio methodolegau cydnabyddedig Rheithgor Dinasyddion, a chafodd y pymtheg argymhelliad canlynol eu gwneud dan y penawdau canlynol:

- Pobl
- Partneriaeth ac Integreiddio
- Atal
- Craffu ac Adolygu

**Pobl**

Argymhelliad 1 –

Pob person sy’n dod gerbron y system gofal cymdeithasol a sectorau cysylltiedig, boed blentyn, oedolyn neu ofalwr, yn derbyn cefnogaeth gweithiwr allweddol diduedd, gwybodus a hyfforddwyd yn dda, a fydd yn eiriol drostynt ac yn sefyll ysgwydd ag ysgwydd â nhw.

Ymateb Llywodraeth Cymru -

Derbyn yn rhannol

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr ymateb hwn yn rhannol. Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod pwysigrwydd eiriolaeth a bod gan unigolion lais a rheolaeth yn eu gofal a chymorth, ond na fyddai’n gynaliadwy darparu gweithiwr allweddol annibynnol i bob plentyn, oedolyn neu ofalwr sy’n ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol.

Llais a rheolaeth yw un o brif egwyddorion Deddf 2014. Y bwriad yw rhoi’r oedolyn, y plentyn neu’r gofalwr wrth wraidd eu gofal a’u cymorth, gyda’r prif nod o wella llesiant y sawl sy’n derbyn cymorth, gan gydnabod mai’r unigolyn yw’r person gorau i wneud penderfyniadau am ei lesiant ei hun. Mae Deddf 2014 yn egluro pwysigrwydd cyd-gynhyrchu hefyd, gyda’r pwyslais ar sicrhau bod pobl a gofalwyr yn bartneriaid yn yr holl brosesau penderfynu sy’n effeithio ar eu gofal a’u cymorth neu gefnogaeth. Yn ogystal â chael llais a rheolaeth yn eu gofal a’u cymorth, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd eiriolaeth hefyd. Y dull a gymerwyd ac yr ymgynghorwyd yn helaeth arno trwy ddatblygu a gweithredu Deddf 2014, yw ymwreiddio eiriolaeth o fewn y ddeddfwriaeth a chyflwyno Cod Ymarfer penodol ar eiriolaeth dan Ran 10. Ategwyd hyn ymhellach trwy bwysleisio pwysigrwydd eiriolaeth ym mhob cod ymarfer perthnasol dan Ddeddf 2014.

Gall eiriolaeth fod ar sawl ffurf, er enghraifft, eiriolaeth anffurfiol a ddarperir gan ffrindiau neu berthnasau’n aml neu eiriolwyr annibynnol proffesiynol. Mae manteision i’r naill a’r llall, gyda’r nod cyffredin o helpu unigolion i gael eu clywed, egluro opsiynau a mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a’u teimladau.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn gwneud cyfraniad allweddol fel eiriolwyr ar ran unigolion fel rhan o’u rolau proffesiynol bob dydd. Weithiau fodd bynnag, gall gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas â’r penderfyniad sy’n cael ei wneud. Bydd angen i weithwyr proffesiynol fod yn effro i sefyllfaoedd lle maent yn credu bod gwrthrychedd neu annibyniaeth y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei danseilio neu y gallai gael ei weld felly. Dan amgylchiadau o’r fath, rhaid ystyried rôl mathau eraill o eirioliaeth fel yr amlinellir yn Rhan 10 y Cod Ymarfer.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod mwy y gellir ei wneud i helpu'r rhai sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, yn enwedig yn ymwneud ag eiriolaeth, ac mae nifer o ffrydiau gwaith yn ceisio helpu i wella eirioliaeth a gwasanaethau eirioli yng Nghymru.

Newidiadau deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn ystyried Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth a gwneud y ddeddfwriaeth yn gliriach i'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Mae Grŵp Technegol, sy'n cynnwys Aelodau ag amrywiaeth o safbwyntiau ac arbenigeddau o sefydliadau sy'n cynrychioli gwasanaethau plant ac oedolion, wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddiweddaru Rhan 10 y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth dan Ddeddf 2014, er mwyn ystyried y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth gyda phlant. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys mireinio'r diffiniad o Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA) ac ystyried y safonau ar gyfer gwasanaethau eirioli wedi'u rheoleiddio dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol hefyd ar wasanaethau eirioli heb eu rheoleiddio yng Nghymru. Nid oedd gwasanaethau eirioli'n cael eu rheoleiddio cyn Deddf 2016. Daeth y rheoliadau i rym ym mis Ebrill 2019, ac ar hyn o bryd, maen nhw'n berthnasol i wasanaethau eirioli a drefnir gan awdurdodau lleol dan eu dyletswydd i gynorthwyo plant, plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal ag anghenion penodol, i gyflwyno sylwadau am eu hanghenion gofal a chymorth.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ehangu fframwaith Deddf 2016 i rai sy'n darparu gwasanaeth eirioli i oedolion a phlant na fyddent o fewn cwmpas Rhan 178 o Ddeddf 2014 ar yr adeg yn y dyfodol lle bydd tystiolaeth benodol o effaith y Ddeddf ar ddarparwyr. Yn y cyfnod rhwng nawr a hynny, bydd disgwyliad clir i ddarparwyr weithio tuag at wasanaethau eirioli wedi'u rheoleiddio i oedolion yn y dyfodol.

Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA)

Mae gan Gymru Ddull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol hefyd, sef y dull safonedig ar gyfer gwasanaethau eirioli statudol sy'n cael eu darparu gan y chwe Cydweithredfa Gwasanaethau Cymdeithasol ranbarthol.

Mae NASA yn egluro'r disgwyliadau cenedlaethol ar fynediad i eiriolaeth (broffesiynol annibynnol) a'r gwasanaethau sydd ar gael. Wedi'u seilio ar y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol, elfennau cyffredin manyleb gwasanaeth a thempled adrodd, mae NASA yn ategu ac yn sicrhau cynnig a phrofiad cyson i blant ac ymarferwyr. Mae NASA yn dangos tystiolaeth bellach ac yn llywio dulliau cyflawni a gwella'r dyfodol trwy waith adrodd ansoddol a meintiol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae cynnig gweithredol o eiriolaeth yn rhan o NASA. *"Mae plant a phobl ifanc yn gymwys i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol."*. (Fframwaith Safonau a

Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru). Llywodraeth Cymru, Awst 2019

<u>Prosiect Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP)</u>
Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Prosiect Eiriolaeth Edau Aur (GTAP), a gychwynnodd ym mis Mawrth 2016 trwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Dyma flwyddyn olaf y prosiect, ac mae wedi gweithio ledled Cymru fel adnodd i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol, gan feithrin dealltwriaeth o broses comisiynu a darparu eiriolaeth yng Nghymru ar hyn o bryd; er mwyn cyd-gynhyrchu gweledigaeth o'r hyn ddylai'r ddarpariaeth eiriolaeth fod er mwyn cydymffurfio â'r fframwaith statudol newydd; a darparu cymorth i gomisiynwyr a darparwyr gyflawni'r weledigaeth honno trwy rannu arferion da a meithrin gallu.

Mae'r prosiect yn adeiladu ar egwyddorion Deddf 2014, Rhan 10 y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth. Hefyd, mae'n codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ymhlith y bobl hynny sy'n gymwys i dderbyn cymorth a gofal. Yn ogystal mae'r prosiect yn cefnogi comisiynwyr a darparwyr i ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn unol â Deddf 2014. Nod y prosiect yw sicrhau bod unigolion, lle bo'n berthnasol, yn gallu cael gafael ar gymorth eirioli proffesiynol annibynnol a datblygu ymwybyddiaeth well o rôl eiriolaeth.

Mae GTAP wedi paratoi fframwaith o'r enw 'Fframwaith ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion' dan Ddeddf 2014 a phecyn adnoddau cysylltiedig. Y nod yw helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyflawni gofynion Deddf 2014, ac mae'n egluro elfennau hanfodol comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i oedolion (beth rydyn ni'n ei wneud); law yn llaw ag adnoddau sy'n helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio'r Fframwaith (sut i'w wneud).

Mae'r Fframwaith wedi'i lansio'n ffurfiol ac ar gael ar wefan Age Cymru.

| |
|---|
| **Pobl**<br><br>Argymhelliad 2 –<br><br>Mae angen i gynlluniau gofal a chefnogaeth barchu deilliannau delfrydol unigolyn, a bod yn fwy holistig, er mwyn i wasanaethau ffitio o gwmpas y person, yn hytrach na'r ffordd arall. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn, ac yn cytuno bod rhaid i bob cynllun gofal a chymorth barchu deilliannau delfrydol unigolion.<br><br>Mae Deddf 2014 yn rhoi dyletswyddau clir ar rai sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf i ddechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i |

benderfynu ar ei lesiant ei hun. Ategir hyn yn gyson drwy'r diffiniad o lesiant a'r datganiadau canlyniadau llesiant cenedlaethol, er enghraifft, 'Dwi'n cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosib" a "Dwi'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi".

Mae cynlluniau gofal a chymorth yn esblygu o asesiadau effeithiol o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'r canlyniadau y mae am eu cyflawni. Mae'n fodel o asesu a chynllunio gofal sy'n gofyn i'r broses asesu gychwyn gyda'r unigolyn ei hun, a deall ei gryfderau a'i alluoedd a'r hyn sy'n bwysig iddo, a sut mae ei deulu, ffrindiau a'r gymuned leol yn cyfrannu at ei fywyd er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddeilliannau personol.

Mae Rhan 4 y Cod Ymarfer yn dweud yn glir bod rhaid i gynlluniau gofal a chymorth hyrwyddo llesiant. Rhaid i ofal a'r cymorth adeiladu ar gryfderau a galluoedd yr unigolyn a'i helpu i gynnal lefel briodol o annibyniaeth gyda'r lefel briodol o ofal a chymorth sy'n gydnaws â'i lesiant. Mae hyn yn cynnwys ei hawl i dderbyn taliad uniongyrchol i ddiwallu ei anghenion cymwys fel y gall benderfynu sut, pryd a gan bwy y diwallir ei anghenion.

Mae cefnogi arweinyddiaeth ac ymarfer effeithiol, sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a sefydlodd Llywodraeth Cymru trwy Ddeddf 2014, yn flaenoriaeth barhaus i Gofal Cymdeithasol Cymru, yn enwedig galluogi sgyrsiau llwyddiannus a gwybodus am beth sy'n bwysig i bobl.

**Pobl**

Argymhelliad 3 –

Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i ofalwyr er mwyn eu cydnabod, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, fel yr asedau hanfodol ydyn nhw.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi cyfraniad aruthrol gofalwyr i'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu camau i wella bywydau gofalwyr, yn fwyaf arwyddocaol trwy'r cyflwyniad yn Neddf 2014 sy'n dweud bod gan ofalwr yr un hawl i gael asesiad o anghenion gofal a chymorth â'r rhai maen nhw'n gofalu amdanynt, a chael diwallu eu hanghenion cymwys. Er mwyn helpu gyda'r amcan hwn, cafodd ymgyrch gyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth ei lansio gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2019, er mwyn helpu unigolion o bob oed i ddeall eu hawliau fel gofalwyr.

Er mwyn helpu i sicrhau'r hawliau gwell hyn i ofalwyr a sicrhau bod gofalwyr yn gallu manteisio arnynt a'u bod yn gwneud gwahaniaeth iddynt, gan gynnwys gofalwyr ifanc, fe wnaethom gydnabod bod angen gwneud rhywfaint o waith datblygu ychwanegol. Gan gydweithio â sefydliadau gofalwyr a rhanddeiliaid, fe wnaethom gyhoeddi tair blaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr ym mis Tachwedd 2017 – Cefnogi bywyd law yn llaw â gofalu, Nodi a chydnabod gofalwyr; a Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Rydym yn bwriadu cryfhau'r broses genedlaethol o gydlynu cymorth i ofalwyr trwy adeiladu ar y tair blaenoriaeth a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl. Ar 21 Tachwedd 2019 – Diwrnod Hawliau Gofalwyr – fe wnaethom gyhoeddi ein cynlluniau i ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol newydd i ofalwyr yn 2020. Byddwn yn llunio'r cynllun ar y cyd â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr a'r holl brif wasanaethau cyhoeddus perthnasol trwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar faterion gofalwyr. Bydd y cynllun cenedlaethol yn gweithio ar draws y Llywodraeth, ac yn ystyried pob maes polisi perthnasol.

Yn 2018, cafodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr ei sefydlu, gyda'r grŵp yn darparu fforwm cenedlaethol i lywio'r broses o ddarparu gwelliannau i ofalwyr a darparu ymateb traws-sector i'r heriau sy'n wynebu gofalwyr. Mae sefydlu'r grŵp hwn yn cefnogi egwyddor allweddol Deddf 2014 o gefnogi dull integredig, gyda'r aelodaeth yn cynnwys yr awdurdodau statudol allweddol (cynrychiolaeth o'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol, yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol) law yn llaw â chynrychiolwyr y trydydd sector, y Comisiynwyr Pobl Hŷn, Plant a Chenedlaethau'r Dyfodol ac eraill.

Mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi adroddiad ac argymhellion yn deillio o'i ymchwiliad i effaith Deddf 2014 ar ofalwyr. Bydd Llywodraeth Cymru'n trafod cynnwys yr adroddiad gydag aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ac yn cyflwyno ymateb ffurfiol ym mis Gorffennaf 2020. Bydd adroddiad yr ymchwiliad yn rhan o'r casgliad o wybodaeth a thystiolaeth y byddwn yn eu hystyried, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu strategol newydd.

Hefyd, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Grŵp Ymgysylltu ac Atebolrwydd newydd, i ddechrau gweithio yn 2020, ochr yn ochr â Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr. Bwriad y grŵp newydd yw hwyluso cynrychiolaeth ehangach o'r trydydd sector a gofalwyr unigol, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Tra bod gan bob gofalwr hawl i gael cymorth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol prif ffrwd wedi'u hariannu, cytunwyd ar gyllid wedi'i dargedu er mwyn helpu i gyflawni yn erbyn y tair blaenoriaeth genedlaethol ac er mwyn helpu gofalwyr. Ers 2017-18, mae pob awdurdod lleol wedi cael dyraniad o gronfa gwerth £3 miliwn, er mwyn darparu gofal seibiant ychwanegol neu fathau newydd ohono. Bellach, mae'r cymorth cylchol hwn yn cael ei ddarparu trwy Grant Cymorth Refeniw awdurdodau lleol.

Yn 2018-19 a 2019-20, dyrannwyd £1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru, ar draws byrddau iechyd lleol, er mwyn cefnogi'r tair blaenoriaeth genedlaethol i gefnogi gofalwyr, gan gynnwys gwella'r cymorth i ofalwyr mewn meddygfeydd, ac ymgysylltu'n well â gofalwyr, ar y pwynt pan mae'r sawl maen nhw'n gofalu amdano'n cael ei ryddhau o'r ysbyty. Ar gyfer 2019-20, fe wnaethon ni gryfhau'r canllawiau ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig, gyda £30 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â gwaith integredig, gyda £15 miliwn o'r cyllid i'w ddefnyddio i ddatblygu gwasanaethau ataliol i oedolion sydd angen gofal; a chymorth i ofalwyr. Nod y buddsoddiad ychwanegol hwn yw hybu'r cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau a gwella'r cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i ofalwyr – megis cyfleoedd am fathau newydd o ofal seibiant neu seibiant byr; a hyrwyddo llesiant gofalwyr.

Mae mwy na £1.7 miliwn wedi'i ddyfarnu o'n cynllun grant presennol i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, i Gyrfa Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, ar gyfer pob math o weithgareddau, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith gofalwyr am eu hawliau a sut i gael gafaela r fathau gwahanol o gymorth. Bydd cynllun grant tair blynedd newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar waith o 2020-21 ymlaen hefyd.

Rydym wedi darparu cyllid penodol yn 2018-19 a 2019-20 hefyd ar gyfer prosiectau ar raddfa fach yn uniongyrchol i ofalwyr e.e. £45,000 ar gyfer Hwb Cyflogwyr i Ofalwyr Cymru; £10,000 i Fforwm Cymru Gyfan er mwyn gwella ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr; ac £14,000 i Plant yng Nghymru er mwyn rhoi cymorth parhaus i'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc. Rydym wedi cytuno ar gyllid i Gofalwyr Cymru hefyd er mwyn darparu adnoddau dysgu ar-lein i ofalwyr eu defnyddio i achredu eu sgiliau ar gyfer gofalwyr ifanc hyd at 18 oed. Hefyd, rydym yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu model newydd o gardiau adnabod cenedlaethol i ofalwyr ifanc a fydd, o'u cyflwyno, yn helpu pobl ifanc i gael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir gan arbenigwyr addysgu, iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddatblygu adnoddau a deunyddiau i lywio ac addysgu meddygon teulu, fferyllwyr, athrawon ac eraill am y problemau sy'n wynebu gofalwyr ifanc, a sut y gallan nhw wella eu gallu i helpu i adnabod gofalwyr ifanc a'u cyfeirio at gymorth neu asesiad o anghenion gofalwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod yr amrediad o ddata am faes gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhoi darlun mwy cywir a chynhwysfawr o brofiadau gofalwyr y gellir ei ystyried ar lefel genedlaethol wedyn. Bydd hyn yn helpu i lywio polisïau a gwelliannau. O gofio hyn, mae Llywodraeth Cymru'n arwain gwaith datblygu ar ein Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd a gaiff ei lansio ym mis Ebrill 2020. Y bwriad yw gwneud mwy er mwyn casglu data cywir a pherthnasol am ofalwyr gan gynnwys gofalwyr ifanc.

| |
|---|
| **Pobl**<br><br>Argymhelliad 4 –<br><br>Rhaid gwneud y symud rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn llai trafferthus a dylai flaenoriaethu'r person ifanc lawer yn fwy. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn ac eisoes wedi mynd i'r afael â hyn yn rhannol.<br><br>Yn gyntaf, mae cyfuno'r ddeddfwriaeth plant ac oedolion mewn un fframwaith cydlynol wedi galluogi dull cyffredin o asesu anghenion pobl ar gyfer gofal a chymorth. Mae Rhan 3 y Codau Ymarfer ar Asesu Anghenion yn nodi'n benodol bod y broses o bontio o fyd plentyn i fyd oedolyn yn golygu newid sylweddol mewn amgylchiadau ac felly'n creu'r hawl i ailasesu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Rhaid i'r ailasesiad hwnnw bennu p'un ai yw'r broses o ddarparu gofal a chymorth yn gallu, ac i ba raddau y mae'n gallu cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau newydd eu nodi sydd gan yr unigolyn, neu fodloni'r anghenion a nodwyd mewn ffordd arall.<br><br>Yn achos plant sydd mewn llety awdurdod lleol, pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am gymorth a ddarperir i bobl ifanc sy'n pontio i fyw'n annibynnol, yna mae ein deddfwriaeth a'n polisi yn dweud yn glir mai gwella canlyniadau llesiant y person ifanc dan sylw ddylai fod yn flaenoriaeth <u>bob amser</u>.<br><br>Mae Rhan 6 y Cod Ymarfer i Ddeddf 2014 yn dweud y dylai pob person ifanc sy'n gadael gofal gael y cymorth sydd ei angen i bontio'n llwyddiannus i fyd oedolion a symud tuag at fyw'n fwy annibynnol.<br><br>Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, dywed Rhan 6 y Cod y dylai'r paratoadau ar gyfer gadael gofal fod yn rhan hanfodol o'r broses cymorth a chynllunio gydol yr amser mae'r person ifanc mewn gofal.<br><br>Mae'r Cynllun Llwybr sydd gan bawb sy'n gadael gofal yn seiliedig ar eu cynllun gofal a chymorth Rhan 6. Mae'r Cynllun Llwybr yn nodi'r camau sy'n **rhaid** eu cymryd hefyd gan yr awdurdod lleol, y person ifanc, ei rieni a'i ofalwyr, a'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r person ifanc, fel bod y person ifanc hwnnw yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arno i gyflawni ei ddyheadau a phontio'n llwyddiannus i fyd oedolion.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol er mwyn helpu plant i bontio i fyd oedolion. Darparwyd ffrydiau cyllido i awdurdodau lleol, fel rhan o'n rhaglen waith Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant, i'w helpu i gefnogi'r sy'n gadael gofal. |

Cronfa Dydd Gŵyl Dewi - £1 filiwn
Mae'r gronfa hon, sy'n werth miliwn o bunnoedd, yn helpu pobl ifanc 16-25 oed sydd naill ai mewn, neu wedi bod mewn gofal awdurdod lleol, i fanteisio ar gyfleoedd sy'n eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus.

Cynghorwyr Personol - £1 filiwn
Cafodd Awdurdodau Lleol gyllid ychwanegol i ehangu'r cymorth cynghorwyr personol i rai 21-25 oed sy'n gadael gofal. Mae cymorth a chyngor cynghorydd arbenigol yn hanfodol er mwyn helpu rhai sy'n gadael gofal i bontio'n llwyddiannus i fyw'n annibynnol a byd oedolion.

Hyfforddeion a Lleoliadau Gwaith - £625,000
Rydym wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol ehangu neu wella eu hyfforddeiaethau a lleoliadau gwaith yn benodol i bobl ifanc 16-18 oed sy'n gadael gofal. Mae hyn yn bwysig, oherwydd gwyddom fod rhai sy'n gadael gofal yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedyn.

Argymhelliad 5 ac 8 -

**Pobl**

5. Dylai unigolion a darparwyr gwasanaeth weithio ar y cyd fel partneriaid cyfartal, gan hybu gwneud penderfyniadau da a lleihau'r angen i herio penderfyniadau.

**Partneriaethau ac Integreiddio**

8. Mae angen diffinio a gwreiddio cyd-gynhyrchu fel arfer sy'n ddealledig ac yn cael ei ddefnyddio gan bawb sy'n cymryd rhan mewn creu, darparu a gwerthuso gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru -

Derbyn

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y ddau argymhelliad yn llawn. Rydym wedi'u grwpio gyda'i gilydd ar gyfer yr adroddiad hwn gan eu bod yn trafod meysydd tebyg yn ymwneud â chydweithio a chyd-gynhyrchu.

Mae Deddf 2014 yn dweud bod newid diwylliannol yn ofynnol o'r dulliau traddodiadol o gyflenwi gwasanaethau, i ddull seiliedig ar bartneriaethau, a pherthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae llais a rheolaeth yn egwyddor allweddol yn Neddf 2014 ac yn egluro cysylltiad â chyd-gynhyrchu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl fod yn bartneriaid mewn pob

penderfyniad sy’n ymwneud â’u gofal a chymorth. Mae’r dull hwn yn seiliedig ar gryfderau a deall cyfraniad pobl at eu llesiant eu hunain.

Mae Deddf 2014 yn cynnwys dyletswyddau, swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol penodedig, prosesau a phwerau sy’n annog pobl i gael llais a rheolaeth gryfach dros eu bywydau eu hunain.

Mae cydgynhyrchu yn llifo drwy Deddf 2014 i gyd. Disgwylir i’r holl bartneriaid sy’n gysylltiedig â datblygu a chyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol i gydgynhyrchu gwasanaethau er mwyn cyflwyno’r newidiadau a ragwelir gan Ddeddf 2014.

Ar lefel sefydliadol, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweld rhai enghreifftiau da o gyd-gynhyrchu drwy'r ffordd y mae’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno’r Gronfa Gofal Integredig. Mae’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydlwyd yn sgil Deddf 2014, yn seiliedig ar ôl troed y bwrdd iechyd er mwyn sbarduno’r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw canolbwyntio ar ddarpariaeth strategol gwasanaethau gofal a llywio’r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau gweithio cydweithredol.

Ar ben hyn, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hyrwyddo a datblygu modelau cyflawni amgen, gan gynnwys cydweithfeydd, er mwyn sicrhau’r newid a ragwelwyd yn Neddf 2014 a gwneud gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn bartneriaid allweddol yng ngwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym yn disgwyl i’r Byrddau ymgysylltu’n rhagweithiol â phobl a’u helpu i gyfrannu at bennu ffurf gwasanaethau yn y rhanbarth. Mae’n bwysig bod y broses o ymgysylltu â dinasyddion yn digwydd ar lefelau gwahanol ac nid o amgylch bwrdd y bartneriaeth ranbarthol yn unig gydag ychydig o ‘ddinasyddion arbenigol’.

Yn olaf, yn achos datblygu’r gweithle gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o’r hyn sydd angen ei wneud, o ran unigolion yn derbyn gofal a chymorth a chael eu trin fel partneriaid cyfartal, cafodd y Cyngor Gofal (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach) ei ddewis i gyflwyno rhaglen adnoddau a dysgu genedlaethol i ymarferwyr er mwyn helpu i roi Deddf 2014 ar waith.

Argymhelliad 6 a 10 –

**Partneriaeth ac Integreiddio**

6. Angen mwy o gysondeb mewn darpariaeth weithredol strategol o ofal cymdeithasol ar draws Cymru gyda gwell hwyluso partneriaethau a chydweithio.

10. Mae angen datblygu prosesau ac offer, a’u defnyddio’n effeithiol er mwyn gwreiddio gweithio da mewn partneriaeth ac ar y cyd

Ymateb Llywodraeth Cymru -

| Derbyn |
| --- |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y ddau argymhelliad yn llawn. Rydym wedi'u grwpio gyda'i gilydd ar gyfer yr adroddiad hwn gan eu bod yn cwmpasu meysydd tebyg yn ymwneud â chydweithio a phartneriaethau effeithiol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ymroi i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â'r sector gofal cymdeithasol ledled y wlad. Mae sylfeini hyn i'w gweld yn ein cynllun tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 'Cymru Iachach' ac yn Neddf 2014.<br><br>Er enghraifft, mae strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n deillio o Ddeddf 2014, yn seiliedig ar ôl troed y bwrdd iechyd er mwyn sbarduno integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw canolbwyntio ar ddarpariaeth strategol gwasanaethau gofal a llywio'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'n ofynnol iddynt asesu anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth a chreu cynllun ardal, sy'n esbonio sut y byddant yn ymateb i'r anghenion hynny. Cynhyrchwyd yr asesiadau poblogaeth cyntaf gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2017 a chynlluniau ardal yn 2018. Mae aelodaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector, darparwyr gofal, dinasyddion a gofalwyr. Yn dilyn diwygio rheoliadau'r partneriaethau, bydd ychwanegu cynrychiolwyr tai ac addysg yn cryfhau gwaith partneriaeth yng Nghymru fwy fyth.<br><br>Rydym yn sylweddoli bod mwy i'w wneud o ran gwella rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yma yng Nghymru. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wrthi'n adolygu'r canllawiau dan Ran 9 o Ddeddf 2014 er mwyn rhoi rhagor o gymorth ac eglurder i'r Byrddau. Er nad ydym yn ychwanegu gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol yn y rheoliad, byddwn yn dal i annog a chefnogi rhanbarthau i'w datblygu er mwyn hybu a hyrwyddo gwaith rhanbarthol ac integredig. Byddwn yn cryfhau hyn yng Nghanllawiau Rhan 9.<br><br>Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid hefyd, gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ddatblygu a threialu adnodd hunanasesu a fydd yn helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i asesu eu cynnydd hyd yma a nodi'r meysydd i'w datblygu ymhellach.<br><br>Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys mewn perthynas â rhoi'r hyder i bartneriaid gyfuno cronfeydd a chydgomisiynu gwasanaethau.<br><br>Mae cronfeydd cyfun yn sbardun allweddol i drefniadau integredig a chydweithredol cryfach, yn enwedig o ran helpu i gydgomisiynu gwasanaethau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddatblygu pecyn adnoddau ymarferol i helpu i weithredu cronfeydd cyfun. Cafodd y pecyn ei ddatblygu gyda chyfraniad partneriaid perthnasol trwy banel cynghori arbenigol. |

Mae adolygiad annibynnol o gronfeydd cyfun ar droed. Bydd yr adolygiad, a gynhelir gan KPMG, yn profi cwmpas ac effeithiolrwydd trefniadau cronfeydd cyfun er mwyn helpu i lywio'r camau nesaf, gan gynnwys ystyried lle arall y gallai cronfeydd cyfun fod yn fanteisiol a sut allwn ni gefnogi'r datblygiad hwn.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi bod yn brysur hefyd yn datblygu adnoddau er mwyn helpu i wneud gwaith comisiynu, cynllunio strategol a datblygu'r farchnad yn fwy effeithiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn y tair blynedd diwethaf. Cytunwyd y bydd angen i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ddefnyddio dull gweithredu gwahanol oherwydd cyfres o flaenoriaethau cenedlaethol a heriau'r gwasanaeth a'r farchnad, gan gynnwys: disgwyliadau 'Cymru Iachach' mewn perthynas â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i *gefnogi 'Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu Cynlluniau Ardal gan osod modelau newydd o ofal di-dor, cyllidebau cyfun a threfniadau comisiynu ar y cyd'* a'r disgwyliadau am fwy o wasanaethau lleol a gofal sylfaenol seiliedig ar hybiau.

Yn ogystal â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol hefyd – sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sefydliadau'r trydydd sector, GIG Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac yn cynnwys cynrychiolaeth o blith dinasyddion. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithaol Cenedlaethol yn cyfrannu'n weithgar at y gwaith o drafod polisïau sy'n ymddangos yn ogystal â rhoi adborth uniongyrchol ar ddatblygiad a gweithredu polisïau. Mae trefniadau gweithredol y Bwrdd Cenedlaethol wedi bod yn destun adolygiad parhaus, a bydd hynny'n parhau er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n amserol ac yn adeiladol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid cynrychioliadol.

**Partneriaeth ac Integreiddio**

Argymhelliad 7 –

Mae angen gwneud Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fwy tryloyw ac atebol, ac mae angen iddynt fod yn fwy agored i'r cyhoedd

Ymateb Llywodraeth Cymru -

Derbyn

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Mae cydgynhyrchu a llais y dinesydd wrth galon Deddf 2014 a dyma'r egwyddorion allweddol sy'n llywio gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u holl bartneriaid.

Rydym yn ymwybodol bod defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr gofalwyr ar fyrddau rhanbarthol wedi disgrifio rhai o’u heriau o ymgysylltu’n ystyrlon â chyfarfodydd ag agendâu’r bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Dylai cynrychiolwyr dinasyddion a gofalwyr gael cymorth i ddarllen a deall yr adroddiadau a’r deunyddiau cymhleth sy’n mynd trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac, os oes angen, dylid eu helpu i sicrhau bod ganddynt lais mewn amgylchedd all godi ofn ar aelod unigol o’r cyhoedd.

Er mwyn mynd i’r afael â rhai o’r materion hyn, cynyddwyd y Gronfa Gofal Integredig o £59 miliwn i £89 miliwn yn 2019-20 ac rydym wedi darparu rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd i ddefnyddio’r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer cymorth seilwaith rhanbarthol, a all gynnwys cefnogi’r trydydd sector, ymgysylltu â dinasyddion a gofalwyr neu helpu i reoli a gwerthuso rhaglenni lleol. Mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwneud defnydd da o’r Gronfa Gofal Integredig er mwyn helpu gofalwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau’r trydydd sector i ymgysylltu’n effeithiol.

Mae Gweinidogion yn ailategu eu disgwyliadau’n aml mewn perthynas â rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o helpu’n rhagweithiol i ymgysylltu â gofalwyr, defnyddwyr gwasanaethau a’r trydydd sector. Mae’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn trafod materion ymgysylltu’n benodol mewn cyfarfodydd rheolaidd.

Rydym wedi comisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd i gefnogi a chydlynu cynrychiolwyr y trydydd sector a’u helpu i gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau o’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Cafodd Fforwm Cymru Gyfan Rhieni a Gofalwyr £17,000 o gyllid yn 2019-20, er mwyn cynnal prosiect cenedlaethol i gyflwyno gweithdai cydweithredol rhanbarthol i ofalwyr ym mhob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddwyn ynghyd ofalwyr, eu cynrychiolwyr gofalwyr ar y Bwrdd, a chydweithwyr allweddol sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd sy’n arwain ar strategaethau gofalwyr. Nod y gweithdai yw creu grwpiau ymgysylltu rhanbarthol o ofalwyr er mwyn i gynrychiolwyr gofalwyr y Byrddau allu rhoi adborth iddynt a chael sylwadau ganddynt. Bydd y grwpiau hyn yn helpu i sicrhau llais cryfach i ofalwyr mewn prosesau cynllunio lleol a rhanbarthol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ganfod dirprwy gynrychiolwyr. Mae’r gwaith hwn yn cefnogi gweithgaredd strategol Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr, y mae ei aelodau’n gweithio gyda ni i ddatblygu cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr.

**Partneriaeth ac Integreiddio**

Argymhelliad 9 –

| |
|---|
| Mae angen i brosesau tendro a chomisiynu sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n darparu'n union yr hyn sydd ei angen ar bobl yn y tymor byr, canolig a hir. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.<br><br>Mae'n hanfodol ein bod ni'n parhau i wella'r broses dendro a chomisiynu yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i'r rhai sydd eu hangen. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn i ryw raddau. Er enghraifft, bu'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn brysur iawn yn datblygu adnoddau i gefnogi comisiynu mwy effeithiol, cynllunio strategol a datblygiad y farchnad ledled iechyd a gofal cymdeithasol dros y tair blynedd diwethaf.<br><br>Mae cynllun gwaith newydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cynnwys y meysydd gweithredu â blaenoriaeth canlynol:-<br>• Helpu i ddatblygu arferion comisiynu rhanbarthol<br>• Helpu i ddatblygu'r farchnad a chydbwysedd traws-sector<br>• Datblygu modelau newydd comisiynu a chyflenwi gofal cartref<br>• Mesur costau a chanlyniadau gofal<br>• Gwella ac integreiddio trefniadau comisiynu gofal cymhleth<br><br>Byddwn yn trafod y ddau faes blaenoriaeth olaf gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys comisiynwyr a darparwyr, er mwyn archwilio sut allwn ni fesur cost ac ansawdd gofal yn fwy cyson a deall y canlyniadau mae defnyddwyr gwasanaethau'n eu profi o'r gwasanaethau a gânt. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau hyn i lywio gwelliannau a gwella ansawdd gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Blaenoriaeth allweddol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yw datblygu arferion comisiynu ar hyd a lled Cymru a sefydlu comisiynu fel proffesiwn cydnabyddedig. Mae diploma cynllunio a chomisiynu wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd er mwyn helpu i feithrin gallu a sgiliau ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. |

| |
|---|
| **Atal**<br><br>Argymhelliad 11 ac 12 –<br><br>Dylai cyrff statudol ddarparu gwybodaeth glir am eu gwasanaethau ac am y Ddeddf, gan sicrhau ei bod hi'n hawdd cael mynediad ati a'i deall, waeth beth fo amgylchiadau, cefndir neu anghenion rhywun.<br><br>Dylid gwneud gwelliannau i'r system gyffredinol er mwyn peri nad yw profiadau pobl yn gymhleth, a'i bod hi'n hawdd cael y gefnogaeth gywir. |

| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
|---|
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn ailadrodd prif egwyddorion Deddf 2014 a'r Cod Ymarfer statudol (Rhan 2 – Swyddogaethau Cyffredinol). Rhaid i wasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am y ffordd y mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol; y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael; sut i gyrchu'r gofal a'r cymorth sydd ar gael; a sut i godi pryderon am lesiant unigolyn y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad fod yn hawdd i'w defnyddio, yn groesawgar a gwybodus, er mwyn creu gwasanaeth sy'n cyrraedd pobl ac yn cynnig dulliau atal ac ymyrraeth gynnar ac ymateb sy'n wybodus gan gynnig gwybodaeth a chysur.<br><br>Mae dulliau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi craffu ar hyn yn ddiweddar. Gwelwyd enghreifftiau effeithiol gan y Swyddfa Archwilio yn ogystal â chyfleoedd i wella: https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/y-drws-blaen-i-ofal-cymdeithasol-i-oedolion<br><br>Mae'n hollbwysig bod awdurdodau lleol yn deall effaith eu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ac yn gallu deall ansawdd profiadau unigolion o'u gwasanaethau fel rhan o'u cyfrifoldebau ar gyfer gwelliant parhaus. Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu prosiect ymchwil, drwy'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, a fydd yn archwilio'r canlynol yn fanylach:<br><br>1) Y modelau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n bodoli o fewn awdurdodau lleol ar hyn o bryd<br>2) Pa elfennau o wybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n gweithio'n llwyddiannus<br>3) Sut i fonitro gweithgareddau ac effaith gwybodaeth cyngor ac arweiniad ar raddfa leol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>Bydd canfyddiadau cam cynta'r prosiect hwn yn cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2020, a bydddant yn cael eu defnyddio wedyn i lywio a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a'u cysoni â gofynion Deddf 2014 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig.<br><br>Law yn llaw â hyn, byddwn yn parhau i gefnogi gwelliannau ymarfer trwy Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cynyddu ymwybyddiaeth pobl o'u hawliau dan Ddeddf 2014. Rydym wedi comisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu pecyn hyfforddi adnoddau seiliedig ar sgiliau i reolwyr ac ymarferwyr, er mwyn helpu i gael sgyrsiau gwell â phobl wrth iddyn nhw gysylltu â'u hawdurdod lleol (https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Pecyn-adnoddau-i-reolwyr-Sgyrsiau-Gwell-mewn-Gwasanaethau-Gwybodaeth-Cyngor-a-Chymorth.docx). |

| |
|---|
| Rhwng 2016-17 a 2019-20, rydym wedi darparu cyllid sylweddol i'n partneriaid Trydydd Sector hefyd er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl am eu hawliau dan Ddeddf 2014. |

| |
|---|
| **Atal**<br><br>Argymhelliad 13 –<br><br>Mae angen cydnabod gweithwyr rheng flaen fel asedau hanfodol o fewn y sector gofal cymdeithasol, a dylid gwella'u statws, datblygiad proffesiynol a chyflog i adlewyrchu hyn. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gweithwyr rheng flaen sy'n allweddol i gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn llwyddiannus. Er mwyn helpu'r sector, rydym yn ymroi i godi proffil a statws y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i wella amodau a thelerau'r gweithlu trwy leihau'r defnydd o gontractau dim oriau a thrwy wneud gwahaniaethu'n glir rhwng amser gofal ac amser teithio yn ofynnol. Ar ben hyn, rydym wedi dechrau ehangu cofrestr y gweithlu mewn ffordd gymesur i agweddau eraill ar y gweithlu gofal cymdeithasol; gan gychwyn gyda chofrestru gwirfoddol gweithwyr gofal cartref, sydd wedi gallu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ers 2018, cyn y broses gofrestru orfodol o 2020 ymlaen. Bydd hyn yn ymestyn i weithwyr gofal preswyl i oedolion o 2020 ymlaen cyn cofrestru gorfodol yn 2022. Y nod yw datblygu'r gweithwyr yn barhaus a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd fod gan weithwyr gofal cymdeithasol gymwysterau addas i ddarparu gofal o safon i bobl agored i niwed yn ein cymdeithas. Hefyd, credwn y bydd hyn yn helpu i godi proffil y sector gofal cymdeithasol yn gyffredinol ac yn ategu'r ffaith fod y gweithlu'n cynnwys unigolion hyfedr sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Bydd hyn yn ei dro yn dod â chydnabyddiaeth i gyfraniad gwerthfawr y sector gofal cymdeithasol o ran cefnogi'r sector gofal iechyd ac yn newid canfyddiad y cyhoedd nad ydynt wedi'u haddysgu na'u talu'n dda iawn.<br><br>Ymgyrch Gofalwn.Cymru<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i reoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol o'r sector gofal cymdeithasol, ddatblygu ymgyrch denu, recriwtio a chadw a fydd yn helpu i arddangos y cyfleoedd gwerthfawr y gall y maes gofal cymdeithasol, gofal plant a'r blynyddoedd cynnar eu cynnig wrth helpu pobl i fyw bywydau llawn ac egnïol. Trwy gyfres o |

| |
|---|
| astudiaethau achos, y nod yw hyrwyddo'r hollgyfleoedd gyrfaol amrywiol ym maes gofal, o warchodwyr plant i ymarferwyr meithrinfa, i gydlynwyr gofal cartref a rheolwyr cartrefi gofal, gyda'r nod cyffredinol o ddiwallu anghenion cynyddol y sector a chreu gweithlu cynaliadwy at y dyfodol yng Nghymru. |

| |
|---|
| **Atal**<br><br>Argymhelliad 14 –<br><br>Dylid annog pawb sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i gofleidio technoleg newydd. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod technegol ddigidol yn alluogwr allweddol i weddnewid pethau, a chafodd hyn ei gydnabod yn flaenoriaeth bwysig gan yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n darparu platfform a rennir ar gyfer cydweithredu diogel ac effeithiol rhwng sefydliadau gwahanol, a gyda dinasyddion yn uniongyrchol.<br><br>Amcan Llywodraeth Cymru yw gwneud defnydd gwell o dechnolegau digidol, data a chyfathrebu i'n helpu i wella ansawdd a gwerth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, fel eu bod nhw'n gosteffeithiol a chynaliadwy ac yn sicrhau hefyd bod ein cynnig yn cyd-fynd â disgwyliadau cynyddol o ran technoleg ym mywydau pobl o ddydd i ddydd.<br><br>Mae gennym enghreifftiau gwych eisoes o systemau digidol yn rhannu gwybodaeth ar draws, a rhwng, gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae rhaglen genedlaethol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn cynnig ffordd ddiogel o rannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae *Cymru Iachach* yn cynnwys ymrwymiad i gyflymu'r broses o gyflwyno WCCIS yn genedlaethol, yn ogystal â systemau gorfodol cenedlaethol eraill. Trwy ddarparu un cofnod cleifion electronig, bydd yn helpu'r meysydd iechyd a gofal cymdeithasol i wneud penderfyniadau ar y cyd a darparu gofal cydlynol hefyd, a fydd o fudd i bawb sy'n derbyn gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau darpariaeth gyflym yn lleol, ar draws sefydliadau, ac yn genedlaethol hefyd.<br><br>Yng nghynllun *Cymru Iachach*, rydym wedi ymrwymo hefyd i fuddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyflymu newid digidol.<br><br>Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi y bydd yna Brif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal. Un o'i ddyletswyddau fydd annog defnydd gwybodus o adnoddau digidol, data a thechnoleg yn y proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol. |

| |
|---|
| Nod y rhaglen cynhwysiant digidol yw sicrhau bod rhai sydd yn y perygl mwyaf o gael eu heithrio o wasanaethau digidol yn gallu cael gafael ar weithwyr proffesiynol iechyd a gofal ar hyd a lled Cymru. |

| |
|---|
| **Craffu ac Adolygu**<br><br>Argymhelliad 15 –<br><br>Dinasyddion yn cymryd rhan yn ffurfiol mewn mwy o graffu, a chraffu dyfnach, o'r Ddeddf i godi hyder yn y sector a sicrhau fod y ddeddf yn cael ei chyflawni'n gywir. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad yn llawn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion. Mae trefniadau ar waith i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â dinasyddion wrth gynllunio, cyflawni a myfyrio ar weithredu Deddf 2014 gan gynnwys cynrychiolaeth dinasyddion ar yr Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol (NSCPB) strategol; Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n datblygu, gyda'u defnyddwyr gwasanaethau, cynrychiolwyr gofalwyr a'r trydydd sector; a phaneli dinasyddion a fforymau lleol sy'n bodoli eisoes sy'n rhoi llais cyffredinol i brofiadau pobl o wasanaethau.<br><br>Gan nodi fod dyletswydd ar Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gyflawni eu swyddogaethau, a bod ganddynt amrywiaeth o systemau a chyfleoedd i ymgysylltu'n effeithiol, bydd swyddogion yn ystyried sut mae'r broses ymgysylltu â dinasyddion yn gweithio'n ymarferol dros y flwyddyn i ddod, ledled y rhanbarthau. |

**Adran 2**

Mae'r adran hon yn cyflwyno ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i 17 argymhelliad olaf prosiect Mesur y Mynydd, sy'n cyfuno canfyddiadau proses casglu straeon SenseMaker a phymtheg argymhelliad y Rheithgor Dinasyddion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi'r sylwadau dan benawdau cyffredin yn hytrach nag ymateb i bob argymhelliad ar wahân.

| |
|---|
| **Cyfathrebu a darparu gwasanaethau** |

- Gwrandewch ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud, a chredwch nhw. Dechreuwch sgyrsiau o'r safbwynt o fod eisiau deall amgylchiadau ac anghenion rhywun, nid safbwynt o fod eisiau eu herio neu eu diystyru.

- Trafodwch y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ac apwyntiadau gyda'r person sy'n derbyn cymorth; dylech gydnabod bod ganddynt ymrwymiadau a bywydau cymhleth yn aml, a chytuno ar amser a lleoliad sy'n addas i'r ddwy ochr.

- Gwnewch yn siŵr bod y rheswm dros gyfarfod neu apwyntiad yn glir i bawb dan sylw a bod pawb yn gytûn y byddai'n ddefnyddiol. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio pobl at wasanaethau eraill, a sicrhau bod yr apwyntiadau hynny'n bwrpasol yn yr un modd.

- Os oes angen aildrefnu cyfarfodydd neu beidio â'u mynychu am ryw reswm, rhowch wybod i bawb a oedd yn mynychu.

- Cyfarchwch bawb yn nhŷ rhywun, a gofynnwch iddynt sut maen nhw. Mae llawer o weithwyr gofal cymdeithasol yn ymweld â chartrefi i weld unigolyn, bydd cyfarch pawb byw yno, yn enwedig os ydynt yn ofalwyr, yn meithrin y berthynas, ac yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer ymyriadau cynnar, pe bai eu hangen.

- Os bydd proses yn cynnwys nifer o unigolion, er enghraifft, gosod teclyn codi mewn cartref ceisiwch gynnal cynifer o'r ymweliadau ag sy' addas ar yr un pryd. Mae cyfuno ymweliadau neu gyfarfodydd yn lleihau'r baich amser ar y person sy'n derbyn cefnogaeth, ac yn gwella cyfathrebu rhwng y bobl dan sylw.

- Pan fydd angen ystod o gymorth rhyngberthynol ar rywun, gweithiwch gyda'r person hwnnw i adnabod ffyrdd y gellid symleiddio'r cymorth hwn. Er enghraifft, os oes angen sblintiau ac esgidiau arbennig ar blentyn, trefnwch fod y ddau beth yn cael eu mesur a'u cyflenwi ar yr un pryd.

- Rhowch bwynt cyswllt penodol, ac enw'r person hwnnw, i unigolion, er mwyn iddynt allu cysylltu â nhw mewn modd dibynadwy. Archwiliwch opsiynau a fyddai'n bodloni'r angen hwn, er enghraifft, system ddwy haen fel bod unigolion yn gwybod gyda phwy y byddan nhw'n siarad wrth ffonio bob tro, hyd yn oed os nad y person hwnnw yw eu gweithiwr achos penodol.

- Darparwch amrywiaeth o ffyrdd y gall pobl gyfathrebu â gwasanaethau; gwnewch yn siŵr eu bod oll yn rhad ac am ddim; a sicrhewch eu bod oll yn cynnig yr un parhad o ran perthynas ag y byddai'r system ffôn dwy haen.

- Gweithiwch yn gyd-gynhyrchiol gyda phobl. Defnyddiwch arbenigedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i ddatblygu gwybodaeth ddefnyddiol, llwybrau effeithlon drwy'r ddarpariaeth ac i wella darpariaeth mesurau ataliol.

| |
|---|
| Gwnewch yn fawr o wybodaeth a phrofiad pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol.<br><br>• Trafodwch gysylltiadau personol a bywyd cymdeithasol gyda phobl a gweithiwch gyda nhw i adnabod ffyrdd y gellid cynnal, cryfhau neu ehangu'r rhain. Mae angen i chi gydnabod bod anghenion pobl yn hyn o beth yn amrywio'n fawr ac y gallai gymryd amser i amlygu opsiynau. Yng nghyd-destun gofalwyr sy'n ceisio seibiant, nid yw seibiant yn seibiant oni bai bod y person hwnnw'n gwneud rhywbeth y maent yn dymuno'i wneud, dros gyfnod o amser ac mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw gofynion Deddf 2014 a'r Cod Ymarfer ategol yn cyrraedd y bobl sydd angen gofal a chymorth a'r gofalwyr sydd angen cymorth bob amser.<br><br>Mae egwyddorion Deddf 2014 yn glir iawn ac mae ethos y Ddeddf yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'r cymorth sydd ei angen arno i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. Dylai hon fod yn thema gyffredin glir ym mhopeth a gyflawnir dan Ddeddf 2014, a dylai fod yn amlwg ym mhrofiadau pob unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth.<br><br>Mae'r argymhellion hyn yn dangos nad dyma'r achos bob amser, a bod profiadau unigolion dan Ddeddf 2014 yn parhau'n amrywiol.<br><br>Yn dilyn ymlaen yr argymhellion hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i archwilio'r argymhellion yn fanylach a sut i fynd i'r afael â nhw. Mae'n amlwg bod problem o ran sut mae gofynion ac egwyddorion allweddol Deddf 2014 yn llifo drwy'r system, ac felly mae angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn.<br><br>I gefnogi hyn, rydym wedi comisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant i ymarferwyr am sgyrsiau effeithiol. Byddwn yn ystyried sut y gellid ymgorffori'r argymhellion yn y meysydd eraill mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am eu cyflawni. |

| |
|---|
| **Cynlluniau asesu a gofal**<br><br>• Cynigiwch asesiadau gofalwyr i ofalwyr. Peidiwch ag aros iddynt ddweud eu bod yn cael trafferth, neu iddynt ddangos eu bod angen rhywbeth; mae bod yn ofalwr yn anodd ac mae cynnig asesiadau iddynt yn ffordd hawdd o ddarparu cefnogaeth. |

| |
|---|
| • Ystyriwch a yw'r gwaith sy'n cael ei wneud yn dod â budd gwirioneddol i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi. Os nad ydyw, ystyriwch pam y gallai hynny fod, a gweithiwch yn eich sefydliad fel tîm, i ddirnad y rhesymeg dros gyflawni'r gwaith hwnnw ac a ellid ei gyflawni'n fwy cynhyrchiol mewn ffordd arall. |
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant a chyd-gynhyrchu – dyna yw egwyddorion sylfaenol Deddf 2014. Mae’r pwyslais ar siarad ag unigolion i weld beth sy’n bwysig iddyn nhw a’r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni. Mae’r sgwrs honno’n cychwyn gyda gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) ac yn parhau, lle bo’n briodol, ac os yw’r gofalwr yn dewis hynny, gydag asesiad o’i anghenion gofal a chymorth.<br><br>Un elfen allweddol o Ddeddf 2014 yw nad oes rhaid i ofalwr ofyn yn benodol am asesiad o anghenion gofalwr. Os nodir angen o’r fath, dylid ei gynnig i’r gofalwr nad yw wedi ystyried ei hun yn ofalwr o reidrwydd, neu ei gyfeirio i’r awdurdod lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu’n union pa broses y dylai awdurdodau lleol ei defnyddio wrth asesu (‘sgwrs beth sy’n bwysig’) anghenion gofal a chymorth yr unigolyn neu’r cymorth i’w ddarparu i ofalwyr.<br><br>Mae’r Codau Ymarfer sydd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer asesu anghenion (Rhan 3) a diwallu anghenion (Rhan 4), ar gyfer gofal a chymorth, yn glir o safbwynt yr hyn sy’n ofynnol gan lywodraeth leol. Yn ôl Rhan 3 y cod ymarfer, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn esbonio eu dulliau asesu a chymhwysedd yn glir fel bod unigolion yn deall sut i gael asesiad, a beth mae’r broses asesu’n ei golygu. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau hefyd sut y cynhelir y broses, a phwy sy’n gysylltiedig â hi.<br><br>Mae’r meini prawf cymhwysedd cenedlaethol sydd yn Neddf 2014 yn darparu dull cyson o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pob unigolyn yng Nghymru, gan gynnwys gofalwyr. Agwedd ganolog ar hyn yw’r ysbryd o gyd-gynhyrchu, gan weithio gydag unigolion, gofalwyr a theuluoedd i ddeall eu hanghenion, gallu ac adnoddau a’r canlyniadau yr hoffent eu gweld yn digwydd neu sydd eu hangen arnynt. Yna, gallant nodi’r ffordd orau o’u cynorthwyo i gyflawni’r canlyniadau hynny, gan gydnabod pa mor gymwys ydynt i gael y cymorth hwnnw. Gellir diwallu anghenion nid yn unig trwy ddarparu gwasanaethau, ond trwy gymorth a chefnogaeth ymarferol hefyd i helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.<br><br>Tynwyd sylw at bryderon am asesiadau gofalwyr yn benodol yn adroddiad briffio ‘Track the Act 3’ Gofalwyr Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018[2] ac maent wedi’u crybwyll mewn tystiolaeth arall ers hynny, gan gynnwys cyflwyniadau gan sefydliadau wnaeth roi tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Roeddent yn pwysleisio’r diffyg cysondeb yn y modd mae awdurdodau lleol yn asesu gofalwyr, a’r elfen o ddryswch ymhlith gofalwyr o ran pryd y cynhelir asesiadau, neu beth yn union sy’n cael ei asesu mewn asesiad o’r fath. |

[2] https://www.carersuk.org/files/section/5763/carers-wales-track-the-act-2018-final-081018.pdf

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn Mesur y Mynydd ac adroddiad 'Track the Act 3' Gofalwyr Cymru, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu canllawiau'r ymarferwyr er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr.

Bu Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) a gweithgor o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau gofalwyr cenedlaethol a'r llywodraeth, i ddatblygu cyfres o adnoddau dwyieithog i gefnogi ymarfer da, cyfreithlon, seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n asesu anghenion cymorth gofalwyr. Cafodd y pecyn adnoddau proffesiynol ei lansio yn 2019 yn ogystal â modiwl e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru am ofalwyr, ar gyfer aelodau o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol[3]. Bydd y deunyddiau hyn yn helpu gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i gyflawni asesiadau anghenion gofal gofalwr a chynlluniau gofal a chymorth i ofalwyr, wedi'u datblygu gyda'r gofalwr fel partner cyfartal, gyda'r nod o helpu gofalwyr i fyw'r bywyd yr hoffent ei gyflawni.

Mae ein proses o ddatblygu cynllun gweithredu strategol newydd i ofalwyr, a fydd yn cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn archwilio, ymhlith pethau eraill, materion strategol, rôl ac effaith asesiadau anghenion gofalwyr a brofwyd gan ofalwyr, er mwyn llywio cynnwys y cynllun, ei flaenoriaethau a sut y gellir cymryd camau i wella profiadau gofalwyr.

**Gwybodaeth, cyngor, cymorth**

- Datblygwch ddull o gynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth heb fod angen i bobl ofyn amdanynt. Er bod y Ddeddf yn ceisio rhoi llais a rheolaeth i unigolion, ni ddylid dehongli hyn yn nhelerau bod angen i unigolion ddeall popeth a allai fod ar gael iddynt, a hefyd bod yn gyfforddus yn gofyn amdano. Bydd cynnig gwasanaethau priodol, hyd yn oed yn achlysurol, yn cefnogi agenda o ymyrraeth gynnar ac atal.

- Bydd pobl sy'n newydd i fod yn ofalwr yn wynebu heriau emosiynol ac ymarferol y gallent ei chael yn anodd mynd drwyddynt yn llwyddiannus. Bydd cynnig cymorth ac arweiniad hawdd ei ddeall iddynt, gan ddefnyddio'r arbenigedd y mae gweithio yn y sector yn ei roi, yn lleihau'r heriau hyn ac yn meithrin dealltwriaeth bod y sector gofal cymdeithasol yno i helpu. Ystyriwch greu pecyn bach o wybodaeth i bobl, neu benodi rhywun i rôl Swyddog Cefnogi Gofalwyr i feithrin cysylltiadau â gofalwyr.

- Ceisiwch ragweld anghenion pobl a chynnig gwybodaeth iddynt mewn fformatau amgen lle byddai hynny'n ddefnyddiol. Mae cofrestrau pobl â nam ac anabledd (adran 18 o'r Ddeddf [1]) yn darparu pwynt cychwynnol ar gyfer adnabod anghenion. Os oes rhywun yn holi am ddogfennau neu

[3] https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/gweithio-gyda-gofalwyr

wybodaeth mewn fformat amgen, gwnewch yn siŵr mai dim ond unwaith y bydd angen iddyn nhw ofyn.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Derbyn |
| Ymateb |
| Mae ein hymateb i Argymhellion 11 ac 12 yn egluro ein disgwyliadau y bydd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) yr awdurdod lleol yn hawdd i'w defnyddio, yn groesawgar ac yn wybodus, er mwyn creu gwasanaeth sy'n cyrraedd pobl ac sy'n cynnig dulliau ymyrraeth gynnar ac atal, ac ymateb sy'n hyddysg, yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi cysur. Mae ein hymateb yn nodi'r gweithgareddau y byddwn yn eu harwain a'u cyflawni hefyd.<br><br>Mae Deddf 2014 yn ddeddfwriaeth gymharol newydd o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflwyno gwasanaeth IAA yn newid sylweddol i awdurdodau lleol a bod y dull hwn yn dal i ennill ei blwyf.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil annibynnol am IAA er mwyn archwilio'n fanylach y dulliau gwahanol sydd ar waith ledled Cymru; er mwyn nodi lle mae'r arferion mwyaf effeithiol; a'r mathau o ddata meintiol ac ansoddol y dylid eu casglu ar lefel genedlaethol er mwyn dangos effaith ac effeithiolrwydd darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.<br><br>Mae disgwyl i ganfyddiadau'r prosiect gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2020, a byddant yn cael eu defnyddio wedyn i lywio a chefnogi gwelliannau o fewn gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth fel bod y rhai sydd angen gwybodaeth yn gallu cael gafael arni'n hwylus a'i bod yn hawdd i'w deall ac ar gael mewn fformatau gwahanol fel sy'n ofynnol dan Ran 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau cyffredinol). |

**Datblygu llesiant**

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymwneud â gwella deilliannau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Mae'r argymhellion hyn yn dangos sut y gall y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru symud yn nes at ddarparu'r deilliannau llesiant gorau posibl i'r bobl a gefnogir ganddi.

| |
|---|
| Ymateb Llywodraeth Cymru - |
| Cytuno |
| Ymateb |
| Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gwella canlyniadau llesiant pobl sydd angen cymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, ac yn ymrwymo i fonitro canlyniadau llesiant cenedlaethol yr unigolion hynny.<br><br>Roedd datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn rhan o ofynion Rhan 2 Adran 8 y Ddeddf er mwyn disgrifio llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, a darparu dull cyson o fesur llesiant. |

Mae'r dangosyddion canlyniad cenedlaethol yn dangos a yw canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni, ac yn darparu ffordd o fesur llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth ac ar gyfer gofalwyr sydd angen cymorth. Trwy ein Fframwaith Cenedlaethol, rydym yn:

1) Pennu'r cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer hybu a hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru
2) Darparu mwy o dryloywder o ran a yw gwasanaethau'n gwella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, gan ddefnyddio dangosyddion cyson a chymharol.
3) Disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon.

Gan fod gwybodaeth yn cael ei chasglu trwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn y blynyddoedd i ddod, bydd hyn yn dechrau sefydlu'r sail dystiolaeth sydd ei hangen i nodi'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwella yng Nghymru, ac yn dechrau meithrin dealltwriaeth o effaith gyffredinol gofal a chymorth ar fywydau pobl.

Yn ychwanegol at hyn, ar lefel unigolion, rhaid i awdurdodau lleol sy'n cyflawni swyddogaethau dan y Ddeddf sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant pobl sy'n cael cymorth ganddynt.

Mae Deddf 2014 yn sicrhau y bydd pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, neu ofalwyr ag anghenion gofal, yn nodi eu canlyniadau personol a beth sy'n bwysig iddyn nhw. Yna, bydd unigolion, eu gofalwyr a'u teuluoedd, yn ogystal ag eiriolwyr lle bo'n briodol, yn cydweithio ag ymarferwyr i ganfod y ffordd orau i'r unigolyn gyflawni'r canlyniadau hynny. Gall hyn gynnwys cynllun gofal a chymorth wedi'i reoli, gwasanaethau ataliol neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Cam pwysig o'r broses o roi pobl wrth wraidd eu darpariaeth gofal a chymorth yw eu grymuso i allu nodi a mesur eu cynnydd o ran cyflawni eu canlyniadau personol.

## I gloi

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu argymhellion cam un prosiect Mesur y Mynydd. Mae'n amlwg bod amrywiaeth o arferion gwahanol ar waith, sy'n awgrymu fod y broses o weithredu Deddf 2014 a rhai o'r codau ymarfer ategol yn anghyson o hyd, a bod hyn yn effeithio ar brofiadau rhai pobl o ofal a chymorth yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn a'r argymhellion ategol yn helpu i nodi lle mae angen gwaith ychwanegol a sut allwn ni sicrhau, ar lefel genedlaethol, bod pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gallu gwella eu canlyniadau llesiant.

Mae'r newid yn y ddeddfwriaeth yn newid sylweddol ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod hi'n ddyddiau cynnar o hyd ers cyflwyno Deddf 2014 ym mis Ebrill

2016. Fodd bynnag, mae’r argymhellion hyn yn awgrymu nad ydyn ni wedi cyrraedd lle y dylem ni fod ar hyn o bryd, a bod angen gwaith pellach i sicrhau bod gofynion Deddf 2014 ac arferion ar lawr gwlad yn cyfateb â’i gilydd yn well.

Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i weithio’n agos gydag awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru a chydweithwyr y trydydd sector i archwilio’r argymhellion hyn yn fanylach ac archwilio pa gamau pellach sydd angen eu cymryd.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn falch o glywed bod cam dau prosiect Mesur y Mynydd yn mynd rhagddo’n dda, ac yn edrych ymlaen at weld y canfyddiadau ym mis Medi 2020.